

Cafodd yr ymateb hwn ei gyflwyno i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)

HSC PSS 84

Ymateb gan: | Response from: Endometriosis UK



Cwestiwn 1: Blaenoriaethau cychwynnol a nodwyd gan y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer o flaenoriaethau posibl ar gyfer ei waith yn ystod y Chwchedd Senedd, gan gynnwys: iechyd y cyhoedd a gwaith ataliol; y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys diwylliant sefydliadol a lles staff; mynediad at wasanaethau iechyd meddwl; arloesi ar sail tystiolaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; cymorth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl; mynediad at wasanaethau adsefydlu i'r rhai sydd wedi cael COVID ac i eraill; a mynediad at wasanaethau ar gyfer cyflyrau cronig tymor hir, gan gynnwys cyflyrau cyhyrsgerbydol.

C1. Pa rai o'r materion uchod ydych chi'n credu y dylai'r Pwyllgor roi blaenoriaeth iddynt, a pham?

Gallwch roi sylwadau ar gynifer neu cyn lleied o'r materion ag y dymunwch.

Yn eich atebion, efallai yr hoffech feddwl am:

- Yr effaith neu'r canlyniadau y gellid eu sicrhau drwy waith y Pwyllgor?
- Sut y gallai'r Pwyllgor ymdrin â'r mater?
- Pryd y dylai'r Pwyllgor ymgymryd ag unrhyw waith?
- A oes grwpiau, cymunedau neu randdeiliaid penodol y dylai'r Pwyllgor eu cynnwys neu glywed ganddynt mewn perthynas â'i waith?

Dylai'r Pwyllgor roi sylw i'r canlynol fel blaenoriaethau.

Iechyd y cyhoedd ac atal, gan gynnwys:

- Cefnogaeth pwyllgor ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o iechyd y cyhoedd ac addysg sy'n gallu cyflymu diagnosis, gan sicrhau bod pobl yn cydnabod bod ganddynt broblem feddygol a'u bod yn gweld y GIG mewn modd amserol
- Cefnogaeth y pwyllgor ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygon teulu i gyflymu diagnosis, yn enwedig cyflyrau hirdymor, gan ymgynghori â rhanddeiliaid fel Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a chyrrff Gweithwyr Iechyd Proffesiynol eraill

Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl:

- Anogaeth y pwyllgor i Lywodraeth Cymru gefnogi a chyllido mynediad ehangach at wasanaethau iechyd meddwl
- Gweithgarwch y pwyllgor i hyrwyddo pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i wella canlyniadau iechyd meddwl a lleihau'r tebygolrwydd o salwch meddwl mwy difrifol
- Pwyllgor i gydnabod effaith Covid-19 ar iechyd meddwl
- Pwyllgor i ystyried yr hyn a ddysgwyd o ddarparu cymorth iechyd meddwl digidol yn ystod y pandemig – beth y gellir ei fabwysiadu, beth sydd angen ei wella ac ati, gan gydnabod nad yw cymorth iechyd meddwl digidol yn addas i bawb

Gwell mynediad at wasanaethau iechyd i'r rhai sydd â chyflyrau cronig hirdymor

- Pwyllgor i gydnabod cost bersonol a chymdeithasol cyflyrau cronig hirdymor sy'n cael eu rheoli'n wael

- Pwyllgor i annog Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd i ddatblygu llwybrau gofal cyfannol ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor
- Pwyllgor i annog cyflogwyr a sefydliadau addysgol i ddatblygu polisiâu cefnogi priodol ar gyfer gweithwyr a/neu fyfyrwyr sydd â chyflyrau cronig hirdymor
- Pwyllgor i ystyried dysgu o gymorth iechyd digidol ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor yn ystod y pandemig, gan gydnabod nad yw iechyd digidol yn addas i bawb

Cwestiwn 2: Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Chweched Senedd

C2. Yn eich barn chi, pa flaenoriaethau allweddol eraill y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd mewn perthynas â:

- gwasanaethau iechyd;**
- gofal cymdeithasol a gofalwyr;**
- adfer yn dilyn COVID?**

Gallwch roi sylwadau ar cynifer neu cyn lleied o'r materion ag y dymunwch.

Yn eich atebion, efallai yr hoffech chi feddwl am:

- Yr effaith neu'r canlyniadau y gellid eu sicrhau drwy waith y Pwyllgor?
- Sut y gallai'r Pwyllgor ymdrin â'r mater?
- Pryd y dylai'r Pwyllgor ymgymryd ag unrhyw waith?
- A oes grwpiau, cymunedau neu randdeiliaid penodol y dylai'r Pwyllgor eu cynnwys neu glywed ganddynt mewn perthynas â'i waith?

a) Gwasanaethau iechyd

Mae Endometriosis UK yn credu y dylai iechyd menywod fod yn flaenoriaeth allweddol i wasanaethau iechyd yng Nghymru. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd menywod yng Nghymru mewn ymateb i adolygiad cydraddoldeb rhywiol Llywodraeth Cymru, sef bod iechyd yn brif flaenoriaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban [Gynllun Iechyd Menywod](#) ym mis Awst 2021, a chynhaliodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr [ymgyngoriad ar strategaeth iechyd menywod yn y dyfodol](#) ym mis Gorffennaf 2021 ac mae'r strategaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Byddai Endometriosis UK yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau tebyg.

Mae Endometriosis UK yn aelod o glymblaid trydydd sector sy'n llunio Datganiad Ansawdd Iechyd Menywod a Merched yng Nghymru. Mae'r glymblaid yn galw ar y Pwyllgor i wneud iechyd menywod a merched yn flaenoriaeth ar gyfer y Chweched Senedd hon, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Datganiad Ansawdd uchod. Mae gan y glymblaid bron i 30 o aelodau sy'n cynnwys sefydliadau sy'n canolbwyntio ar iechyd, sy'n benodol i'r cyflwr, hawliau cydraddoldeb ac eiriolaeth cleifion o bob rhan o Gymru a'r DU, ac mae pob un ohonynt wedi dod at ei gilydd gyda'r nod o sicrhau bod pob agwedd ar iechyd menywod a merched yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu'n briodol. Byddai Endometriosis UK yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r fenter hon ac annog Llywodraeth Cymru i'w mabwysiadu.

O ran iechyd a lles sy'n gysylltiedig â'r mislif a gofal endometriosis yng Nghymru, byddem yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cyfrannu at y canlynol:

- Cydnabod a mesur graddfa endometriosis yng Nghymru ac ymrwymo adnoddau priodol i wneud diagnosis, trin a rheoli'r cyflwr
- Parhau i weithredu argymhellion adolygiad rhagorol Llywodraeth Cymru yn 2018 ar ofal endometriosis¹ yn unol â chanllawiau NICE NG 73 ar endometriosis: diagnosis a gofal a safon ansawdd NICE CH 172² a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil i gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â'r mislif, gan gynnwys endometriosis
- Mynd i'r afael â bylchau yng nghanllawiau presennol NICE gan gynnwys:
 - llwybrau gofal ar gyfer endometriosis nad ydyw yn y pelfis
 - gofal priodol ar ôl llawdriniaeth
 - mynediad at reoli poen yn unol â chanllawiau poen cronig NICE³
 - integreiddio cymorth iechyd meddwl i lwybrau gofal

¹ *Endometriosis gofal yng Nghymru darpariaeth gofal llwybr gweithlu cynllunio ac ansawdd a chanlyniadau mesurau*, Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Endometriosis Llywodraeth Cymru, 16 Ebrill 2018 <https://llyw.cymru/endometriosis-care-review>

² Canllawiau NICE NG73 ar Endometriosis: diagnosis a rheolaeth, 6 Medi 2017 <https://www.nice.org.uk/guidance/NG73>
a Safonau Ansawdd QS172 ar Endometriosis, 6 Awst 2018 <https://www.nice.org.uk/guidance/QS172>

³ ***Canllawiau NICE NG 193: Poen cronig (cynradd ac eilaidd) mewn pobl dros 16 oed: asesiad o'r holl boen cronig a rheoli poen sylfaenol cronig***, a gyhoeddwyd 7 Ebrill 2021

Byddem hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor bwysu ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i leihau'r amser cyfartalog ar gyfer diagnosis, o'r 9 mlynedd bresennol i lai na 4 blynedd erbyn 2025 ac o dan flwyddyn erbyn 2030, gan gyflawni'r canlynol:

- llwybrau clir ar gyfer diagnosis
- buddsoddi mewn capasiti diagnostig mewn adrannau gynaeoleg
- buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau i sicrhau bod gan bob adran gynaeoleg feddygon sydd ag arbenigedd mewn endometriosis
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr gofal iechyd o endometriosis
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o endometriosis, gan gynnwys gweithredu addysg lles mislif ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru

O ran iechyd a lles sy'n gysylltiedig â'r mislif a gofal endometriosis yng Nghymru, byddem yn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cyfrannu at y canlynol:

- Cydnabod a mesur graddfa endometriosis yng Nghymru ac ymrwymo adnoddau priodol i wneud diagnosis, trin a rheoli'r cyflwr
- Parhau i weithredu argymhellion adolygiad rhagorol Llywodraeth Cymru yn 2018 ar ofal endometriosis⁴ yn unol â chanllawiau NICE NG 73 ar endometriosis: diagnosis a gofal a safon ansawdd NICE CH 172⁵ a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil i gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â'r mislif, gan gynnwys endometriosis
- Mynd i'r afael â bylchau yng nghanllawiau presennol NICE gan gynnwys:
 - llwybrau gofal ar gyfer endometriosis nad ydyw yn y pelfis
 - gofal priodol ar ôl llawdriniaeth
 - mynediad at reoli poen yn unol â chanllawiau poen cronig NICE⁶
 - integreiddio cymorth iechyd meddwl i lwybrau gofal

Byddem hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor bwysu ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i leihau'r amser cyfartalog ar gyfer diagnosis, o'r 9 mlynedd bresennol i lai na 4 blynedd erbyn 2025 ac o dan flwyddyn erbyn 2030, gan gyflawni'r canlynol:

- llwybrau clir ar gyfer diagnosis
- buddsoddi mewn capasiti diagnostig mewn adrannau gynaeoleg
- buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau i sicrhau bod gan bob adran gynaeoleg feddygon sydd ag arbenigedd mewn endometriosis
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr gofal iechyd o endometriosis
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o endometriosis, gan gynnwys gweithredu addysg lles mislif ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru

⁴ *Endometriosis gofal yng Nghymru darpariaeth gofal llwybr gweithlu cynllunio ac ansawdd a chanlyniadau mesurau*, Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Endometriosis Llywodraeth Cymru, 16 Ebrill 2018 <https://llyw.cymru/endometriosis-care-review>

⁵ Canllawiau NICE NG73 ar Endometriosis: diagnosis a rheolaeth, 6 Medi 2017 <https://www.nice.org.uk/guidance/NG73> a Safonau Ansawdd QS172 ar Endometriosis, 6 Awst 2018 <https://www.nice.org.uk/guidance/QS172>

⁶ ***Canllawiau NICE NG 193: Poen cronig (cynradd ac eilaidd) mewn pobl dros 16 oed: asesiad o'r holl boen cronig a rheoli poen sylfaenol cronig***, a gyhoeddwyd 7 Ebrill 2021

b) Gofal cymdeithasol a gofalwyr
c) Adfer yn dilyn COVID
<p>Un agwedd bwysig ar adferiad COVID yw mynd i'r afael â'r ôl-groniad gynaeoleg (gan gynnwys rhai nad ydynt yn ganser) sy'n gysylltiedig â'r pandemig yng Nghymru. Gall y pwyllgor annog Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Cymru i sicrhau bod mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn cael ei wneud yn deg ar sail angen clinigol, er enghraifft drwy ddefnyddio fframwaith blaenoriaethu Covid-19 Coleg Brenhinol y Gynaeolegwyr ac Obstetryddion (RCOG)⁷.</p> <p>Mae Endometriosis UK wedi clywed gan y rheini sydd ag endometriosis yng Nghymru a gafodd lawdriniaeth wedi'i chanslo neu ei gohirio oherwydd y pandemig, sydd wedi cael gwybod y gallan nhw fod yn aros sawl blwyddyn am ddyddiad newydd. Mae gan rai o'r rheini sydd ar y rhestr aros ar hyn o bryd endometriosis difrifol, a byddent yn cael eu blaenoriaethu o dan y fframwaith RCOG uchod.</p>

Cwestiwn 3: Unrhyw faterion eraill

C3. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt?

⁷ *Restoration and Recovery: Priorities for obstetrics and gynaecology – a prioritisation framework in response to Covid-19*, Coleg Brenhinol y Gynaeolegwyr ac Obstetryddion 21 Ebrill 2021